

GWYBODAETH AM DDIOGELWCH I HELPU YSGOLION I BARATOI AR GYFER YMWELIADAU YSGOL AC ASESU RISGIAU

Cofiwch:

- **Fod ysgolion yn gyfrifol am wneud eu hasesiadau eu hunain o'r risgiau,**
- **Ac na allwn ni lenwi, dilysu na llofnodi unrhyw ran o ffurflenni asesu risgiau ysgolion am nad ni sy'n gyfrifol amdanyh nhw.**

Rydyn ni'n argymhell bod ysgolion yn cyfeirio at ddogfen 'Health and safety on educational visits' sydd wedi ei gynhyrchu gan Llywodraeth Prydain

<https://www.gov.uk/government/publications/health-and-safety-on-educational-visits/health-and-safety-on-educational-visits>

Mae hyn yn egluro mai cyfrifoldeb athrawon ac arweinwyr grwpiau yw llenwi asesiadau o risgiau cyn mynd ar ymweliad.

Rhywbeth i'ch helpu chi i baratoi yw'r wybodaeth rydyn ni'n ei chynnig am ddiogelwch, ac nid yw'n cymryd lle'r angen am i chi wneud eich asesiad eich hun o risg sy'n benodol i anghenion eich grŵp gan ddilyn y canllawiau swyddogol a pholisïau'r ysgol/AALI.

Mae ein gwybodaeth am ddiogelwch yn amlinellu'r mesurau rheoli y mae'r amgueddfa'n eu dilyn i osgoi neu leihau risgiau, ynghyd â'r rheolau ymddygiad ar gyfer grwpiau sy'n ymweld. Bydd eich asesiad o risg yn cymryd i ystyriaeth oedran, gallu ac anghenion penodol eich grŵp, unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'ch cludiant neu'r tywydd adeg eich ymweliad, yn ogystal â gwybodaeth yr amgueddfa am ddiogelwch.

Rydyn ni'n argymhell eich bod chi'n rhoi copi o'r asesiad o risgiau/gwybodaeth berthnasol am ddiogelwch i'r holl athrawon/goruchwylwyr ar yr ymweliad.

Yn olaf, rydyn ni wedi cynnwys dyfyniadau o Bolisi Amddiffyn Plant yr amgueddfa ar ddiwedd y ddogfen er gwybodaeth.

DATGANIAD DIOGELWCH

Mae Amgueddfa Genedlaethol y Glannau'n derbyn ei chyfrifoldebau llawn o dan y Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch. Mae Polisi Iechyd a Diogelwch yn bodoli ynghyd ag asesiadau ysgrifenedig o risg a waned mewn perthynas â'n dyletswyddau cyfreithiol tuag at bobl nad ydynt yn aelodau o staff (h.y. ymwelwyr) sy'n dod i'r safle ac yn defnyddio ein cyfleusterau.

Gallwn eich sicrhau fod iechyd a diogelwch ymwelwyr ar y safle o'r pwys mwyaf i ni. Rydyn ni wedi cydweithio'n agos â'r awdurdod lleol ar faterion iechyd a diogelwch, ac rydyn ni am sicrhau y byddwch chi'n mwynhau ymweliad llawn hwyl a gwybodaeth. Mae gennym ni bolisi recriwtio, hyfforddi ac asesu staff sy'n sicrhau bod yr holl staff sy'n gyfrifol am ddiogelwch a lles ymwelwyr/cyfranwyr yn gymwys i wneud eu gwaith.

Gofynnir yn garedig i athrawon a staff eraill yr ysgol weithio mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru trwy oruchwyllo'r plant sydd yn eu gofal ar y safle. Cyfrifoldeb yr ysgol yw'r disgyblion drwy gydol yr ymweliad, gan gynnwys amser cinio.

Rydyn ni'n argymhell yn gryf bod arweinwyr grwpiau'n dod ar ymweliad i baratoi er mwyn asesu unrhyw risgiau posibl i'ch grŵp.

CEFNDIR	
Profiad	<p>Agorodd Amgueddfa Genedlaethol y Glannau i'r cyhoedd ar 18 Hydref 2005. Y mae Amgueddfa Genedlaethol y Glannau wedi eu lleoli mewn warws gwreiddiol rhestredig. Yn gysylltiedig i'r hen adeilad y mae adeilad hollol newydd wedi eu creu o wydr a llechen.</p> <p>Daw hanes ag effaith diwydiant ar fywydau pobl yng Nghymru yn fyw trwy ddelweddau, ffilmiau, mapiau, geiriau, hanes llafar a thechnoleg.</p> <p>.</p>
Manylion y Safle / Atyniad	<p>Mae'r amgueddfa'n rhoi cyfle i ymwelwyr brofi sawl agwedd gwahanol ar effaith datblygiad diwydiant yng Nghymru ar ddynion, menywod a phlant y cymunedau a gododd o gylch y canolfannau diwydiannol.</p> <p>Yn orielau'r Amgueddfa, cewch weld arteffactau go iawn a delweddau o orffennol Cymru, a phrofi amrywiaeth eang o weithgareddau rhyngweithiol a TG.</p> <p>Mae'r arddangosfeydd yn dilyn 15 thema – Ynni, y Dirwedd, Pobl, y Môr, Cymunedau, Sefydliadau, Cyflawnwyr, Arian, Diwrnod o Waith, Rhwydweithiau, Glo, Trawsnewid, Metel a</p> <p>Rydyn ni'n argymhell eich bod chi'n caniatáu rhyw awr i grwydro'r Amgueddfa. Dylech ychwanegu amser ar gyfer sesiynau gyda hwyluswyr (codi'r tal am y sesiynau). Fe gewch gyfle i archebu lle cinio, rydym yn clustnodi 30 munud ar gyfer grwpiau.</p>
Nifer yr Ymwelwyr	Targed o 235,000 ar gyfer y flwyddyn drethi, a 21,000 o'r rheiny o'r sector addysg ffurfiol.
Manylion Cyswllt	<p>I drefnu ymweliad yr Amgueddfa ar 02920 573 600 neu drwy gyrru ebost at learning.waterfront@museumwales.ac.uk.</p> <p>I drafod unrhyw ddarpariaeth arbennig ar gyfer grwpiau Addysg Ffurfiol, gofynnwch i gael siarad â'r Uwch Swyddog Addysg.</p> <p>I gael gwybodaeth am yr Amgueddfa neu ddigwyddiadau, ffoniwch 02920 573600 neu ewch i www.amgueddfayglannau.co.uk</p> <p>Os oes unrhyw bryderon gennych ar ôl eich ymweliad, neu os cawsoch chi unrhyw broblemau o ran rheolaeth yr amgueddfa neu iechyd a diogelwch eich grŵp, byddem ni'n croesawu'r cyfle i'w trafod.</p>

GWYBODAETH GYFFREDINOL	
Anifeiliaid	Mae croeso i gŵn tywys i ymwelwyr â nam ar eu golwg neu eu clyw yn yr Amgueddfa. Ni chaniateir unrhyw gŵn eraill yn yr Amgueddfa nac yng Ngardd yr Amgueddfa. Caniateir mynd â chŵn i'r parc o flaen yr Amgueddfa. Nodir fod yna ddau cwch

	<p>gwenyn yn awry n ardd yr Amgueddfa. Maen't wedi eu lleoli ar falconi uwchben yr ardd.</p>
Systemau Cyfathrebu	<p>Dylai defnyddwyr cymhorthion clyw eu gosod ar "T" er mwyn gwranddo ar nodweddion sain yr arddangosfeydd.</p> <p>Rhowch wybod i ni os hoffech chi drefnu bod hwylusydd sesiwn yn gwisgo dolen.</p>
Hanes Troseddol	<p>Rydyn ni wedi gwneud archwiliad y Gwasanaeth Gwybodaeth Cenedlaethol (NIS) ar bob aelod o staff. Mae'r archwiliadau cydnabyddedig hyn yn arbennig ar gyfer y sector amgueddfeydd ac yn gyfystyr ag archwiliad sylfaenol y DBS.</p> <p>Mae staff yr amgueddfa neu hwyluswyr allanol sy'n dod i gysylltiad rheolaidd a/neu heb oruchwyliaeth â phlant yn cael archwiliadau DBS trylwyr.</p>
Clirio'r Adeilad mewn Argyfwng	<p>Mae trefniadau'n bodoli i glirio'r safle mewn argyfwng. Mae staff yr amgueddfa'n gyfarwydd â'r trefniadau hyn ac yn eu hymarfer yn gyson.</p> <p>Mewn argyfwng, bydd larwm yn seinio a bydd lais dyn yn gofyn i chi adael yr adeilad heb ddefnyddio'r lifft. Dylech fynd allan trwy'r allanfa ddiogel agosaf a dilyn cyfarwyddiadau staff yr Amgueddfa.</p>
Cyfleusterau ar gyfer Ymwelwyr ag Anghenion Arbennig	<p>Mae Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn ceisio darparu ar gyfer gofynion ymwelwyr ag anghenion arbennig. Cysylltwch â ni ymlaen llaw i holi pa drefniadau y gallwn ni eu gwneud ar gyfer ymwelwyr ag anghenion arbennig.</p> <p>Rhaid i ysgolion ac arweinwyr grwpiau sicrhau eu bod yn gwneud trefniadau addas i oruchwylio a chynorthwyo disgyblion ag anghenion arbennig.</p> <p>Mae Canllawiau Mynediad ar gael ar ein gwefan www.amgueddfayglannau.co.uk neu drwy ffonio 02920 573600.</p> <p><u>Namau Corfforol</u> Mae modd cyrraedd pob rhan o'r Amgueddfa mewn cadair olwyn ac mae dau lifft i'r llawr cyntaf. Mae un o'r rhain yn ddigon mawr i gludo cerbydau symudedd.</p> <p><u>Namau ar y Golwg</u> Mae'r lefelau goleuo yn yr orielau'r Amgueddfa'n amrywio, ond nid oes unrhyw newidiadau sydyn yn lefelau'r golau. Gadewch i'ch llygaid addasu i'r golau ym mhob oriel. Mae llawer o'r orielau'n cynnwys cyflwyniadau sain.</p> <p><u>Namau ar y Clyw</u> Mae dolenni clyw ar gyfer yr orielau gael wrth y dderbynfa. Mae llawer o'r arddangosfeydd yn cynnwys cyflwyniadau TG â dehongliad iaith arwyddion Prydeinig.</p> <p><u>Consortiwm Newid Lleoedd</u> Yn ogystal â thoiledau anabl safonol yn yr Amgueddfa, mae gennym bellach ystafell newid a thoiled gwbl hygyrch ar gael yma ar gyfer pobl ag anawsterau dysgu dwys a lluosog yn ogystal â</p>

	<p>llawer o bobl anabl eraill.</p> <p>Mae'r ystafell Newid Lleoedd yn cynnig lle ag offer addas, gan gynnwys mainc uchder newidol y gellir addasu a theclyn codi. Mae gan yr ystafell le naill ochr i ofalwyr i drosglwyddo'r person o'r gadair olwyn i'r toiled. Mae llen preifatrwydd i wahanu'r toiled o'r ardal newid.</p> <p>Mae lleoliad y toiled Newid Lleoedd yn yr Oriol Newydd. Bydd y toiled Newid Lleoedd yn cael eu rheoli gan system allwedd a gellir llofnodi un allan yn y brif dderbynfa.</p> <p><u>Ystafell Ymlacio ac Awr Dawel</u></p> <p>Mae gennym ystafell ymlacio ar gyfer unrhyw un sydd angen dianc o brysurdeb yr orielau, er enghraifft ymwelwyr ag awtistiaeth, dementia neu gyflyrau eraill. Gofynnwch wrth y ddesg wybodaeth am fynediad. Mae ein cynorthwyrwyr oriel wedi derbyn hyfforddiant ynghylch awtistiaeth a dementia, a byddant yn gwneud eu gorau i helpu unrhyw un sydd angen ychydig mwy o sylw i deimlo'n gyfforddus.</p>
Cymorth Cyntaf	Os oes angen Cymorth Cyntaf, cysylltwch ag aelod o staff yr Amgueddfa a fydd yn galw am gymorth.
Gweithgareddau	<p>Gall grwpiau dreulio amser yn crwydro o gwmpas yr Amgueddfa i gyd neu drefnu cyfnodau arbennig i ganolbwyntio ar arddangosfeydd penodol. Yr athro fydd yn arwain y sesiynau hyn.</p> <p>Mae taflenni gwaith ar gael i gyd-fynd â rhai o'r arddangosfeydd i helpu i roi ffocws i'r sesiwn. Cysylltwch â ni os hoffech chi weld y rhain cyn dod. Bydd angen i chi roi gwybod i ni os ydych chi am i ni drefnu bod copiâu o'r rhain ar gael ar ddiwrnod eich ymweliad.</p> <p>Mae amrywiaeth o gyfleoedd gyda hwyluswyr ar gael hefyd, a chewch ddewis y rhain ar-lein trwy fynd i https://amgueddfa.cymru/abertawe/addysg/</p> <p>Cysylltwch â ni i drafod y rhain neu unrhyw gyfleoedd dysgu posibl eraill, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer myfyrwyr â gofynion dysgu penodol.</p>
Yswiriant/Atebolrwydd Cyhoeddus	Mae yswiriant masnachol gan yr Amgueddfa ar gyfer atebolrwydd cyhoeddus. https://amgueddfa.cymru/atebolrwydd/yswiriant/

Plant Coll	<p>Mae tair mynedfa i'r Amgueddfa felly cymrwch ofal arbennig i gadw'r grŵp gyda'i gilydd. Mae un o'r drysau hyn yn agor allan i lwybr ar ymyl y Doc Deheuol sy'n llawn dŵr, felly byddwch yn ofalus wrth symud o gwmpas y safle.</p> <p>Dylech ddweud wrth y plant i roi gwybod i un o Gynorthwyr yr Oriol neu aelod o staff yr Amgueddfa os ydyn nhw ar goll. Os bydd arweinydd y grŵp yn sylwi bod rhywun ar goll, dylent roi gwybod i un o Gynorthwyr yr Oriol neu aelod o staff yr Amgueddfa a fydd yn cymryd camau priodol.</p>
Maint Grwpiau /Goruchwyliaeth	<p>Gwnewch yn siŵr bod rhywun yn goruchwyllo'ch disgyblion drwy'r amser.</p> <p>Rydyn ni'n gofyn eich bod chi'n cadw at y cyfraddau canlynol: Blynyddoedd 1-3 (5-8 oed): 1 oedolyn cyfrifol:6 phlentyn Blynyddoedd 4-6 (8-11 oed): 1 oedolyn cyfrifol:10 -15 plentyn Blynyddoedd 7 ymlaen (oedran uwchradd 11+): 1 oedolyn cyfrifol:15-20 plentyn.</p> <p>Dyma'r cyfraddau y mae'r DfES yn eu hargymell. Dylai arweinwyr grwpiau asesu'r risgiau ac ystyried lefel ddiogel o oruchwyliaeth ar gyfer eu grŵp.</p> <p>Gellir gwrthod gadael i grwpiau o fyfyrwyr dan 16 oed heb oruchwyliaeth, neu heb oruchwyliaeth ddigonol, ddod i mewn.</p> <p>Byddwn ni'n gofyn i grwpiau o dros 35 rannu'n grwpiau llai ar gyfer eu hymweliad.</p> <p>Ni chaiff grwpiau o dros 15 o ddisgyblion dan 16 oed fynd i'r siop yr un pryd, a rhaid iddynt gael eu goruchwyllo'n ofalus.</p>
Anghenion Meddygol	<p>Dylai arweinwyr grwpiau gysylltu â staff yr Adran Addysg ymlaen llaw os ydyn nhw'n ymwybodol fod gan unrhyw ddisgybl anghenion penodol neu anhwylder difrifol. Bydd angen i ni ystyried hyn a thrafod trefniadau brys gyda chi.</p> <p>Byddwn ni'n gwneud ein gorau glas i gynnwys disgyblion ag anghenion neu anhwylderau o'r fath yn y gweithgareddau a gynigir os yw hi'n ddiogel gwneud hynny.</p>
Offer / Offer Chwarae	<p>Mae'r holl offer yn cael ei archwilio'n gyson er mwyn sicrhau ei fod yn 'addas at ei bwrpas'.</p> <p>Rhaid i staff yr ysgol orchwyllo plant sy'n defnyddio'r offer.</p>
Planhigion Gwenwynig / Ffwng	Dim.
Ymddygiad Ymwelwyr	<p>Peidiwch â</p> <ul style="list-style-type: none"> • mynd i lefydd sydd ar gau i'r cyhoedd • camymddwyn • cyffwrdd â'r peiriannau neu'r arddangosfeydd neu ddringo arnynt. <p>Mae'r Amgueddfa'n cadw'r hawl i ofyn i grwpiau neu unigolion sy'n ymddwyn yn wael neu mewn ffordd afresymol adael y safle.</p>
Archwiliadau o	Mae staff yr Amgueddfa'n archwilio'r cyfleusterau'n gyson, ac yn

Gyfleusterau'r Safle	cadw cofnod o'u canfyddiadau.
Adnabod Staff y Safle	<p>Bydd y wybodaeth ganlynol ar gael i'ch helpu chi neu i'ch cyfeirio chi i'r lle priodol am gymorth.</p> <p><u>Amgueddfa</u></p> <p>Mae holl staff yr Amgueddfa'n gwisgo bathodynau adnabod â ffotograff arnynt os oes unrhyw bryderon gennych. Maen nhw'n gwisgo dillad du a coch ag arnynt logo'r Amgueddfa.</p> <p>Mae staff gwirfoddol yr Amgueddfa'n gwisgo bathodynau adnabod.</p>
Yn achlysurol	<p>Am fwy o wybodaeth am meysydd parcio ewch in gwefan - https://amgueddfa.cymru/abertawe/ymweld/</p> <p>Nodir eich cyfrifoldeb chi fydd sicrhau eich bod ar amser ar gyfer gweithdai wedi hwyluso. Os fyddwch yn hwyr neu'n colli gweithdy fydd y tal llawn yn cael ei gymhwyso arnoch.</p> <p>Mae'r llwybr o'r maes parcio i'r Amgueddfa'n llydan, ac mae'r palmant yn wastad.</p> <p>Dewch i mewn i'r Amgueddfa trwy'r Fynedfa Ysgolion. Trowch i'r dde cyn cyrraedd y brif fynedfa ac fe welwch chi'r fynedfa hon ar ochr Orllewinol yr Amgueddfa, y tu ôl i'r glwyd.</p> <p>Yn achlysurol mae traffig rheoledig yn defnyddio'r ardd.</p>
Amddiffyn Rhag y Tywydd / Haul	<p>Bydd yr holl weithgareddau dan do, onid eich bod wedi archebu gweithdy yn ardd yr Amgueddfa. Ond mae'n dipyn o ffordd o'r maes parcio i'r fynedfa ac felly dylai ymwelwyr wisgo dillad addas mewn tywydd gwael.</p> <p>Ar ddiwrnodau braf, os ar gael all ysgolion/grwpiau gael eu cinio, neu cael awyr iach yn yr iard.</p> <p>Mae rhywfaint o gysgod yn agos at yr adeilad, ond dylech gofio amddiffyn eich hun rhag yr haul os yw'r tywydd yn boeth.</p>
Cyfleusterau Lles	<p><u>Tai bach</u></p> <p>Mae tŷ bach i bobl anabl o'r ddau ryw ynghyd â chyfleusterau newid cewynnau yn oriel yr Amgueddfa.</p> <p>Mae dwy set o dai bach i ddynion a merched, y naill ar y llawr isaf a'r llall ar y llawr cyntaf yn yr hen stordy. Mae tai bach i ymwelwyr anabl yn y llefydd hyn hefyd.. Mae'r Amgueddfa hefyd ar gofrestr swyddogol Consortiwm Newid Lleoedd gan fod ystafell newid a thoiled gwbl hygyrch ar gael yma.</p> <p><u>Ystafell fwyta</u></p> <p>Gallwn ni ddyrannu slot o 30 munud i chi fwyta eich cinio yn ystafell frechdanau'r adran Addysg ar eich amserlen. Croeso i chi fwyta yn yr iard (os ar gael) yn ystod y slot yma mewn tywydd braf. Nodir ni allwch archebi lle yn yr iard.</p>

GWYBODAETH BERTHNASOL ARALL

I'w nodi:
Peryglon Posibl a
Mesurau i'w Rheoli

Orielau'r Amgueddfa
Grisiau, corneli miniog ar gesys arddangos a lloriau sy'n gallu bod yn llithrig os ydyn nhw'n wlyb.

Rhaid goruchwyllo grwpiau drwy'r amser. Bydd staff yr Amgueddfa'n bresennol.

Lleoliad ger Doc y De

Mae'r doc yn weithredol ac felly mae'n llawn dŵr. Mae un o'r allanfeydd yn arwain yn uniongyrchol i'r ardal yma. Rhaid i grwpiau fod yn ymwybodol o leoliad y doc a rhaid eu goruchwyllo drwy'r amser.

Arddangosfa Pobl

Mae dechrau'r arddangosfa TG yn cynnwys newid o olau llachar i dywyllwch. Nid effaith strobio mo hyn, ond mae'r newid yn weddol gyflym.

Dylai arweinwyr asesu'r newid a chyflawni asesiad o'r risg ar sail anghenion unigol aelodau'r grŵp.

Peiriannau Diwydiannol ar Waith

Mae rhai o'r arddangosion yn yr orielau'n symud. Mae rhai o'r arddangosion trafnidiaeth yn sefyll ar blinth. Ni ddylai'r ymwelwyr gyffwrdd â'r rhain.

Rhaid goruchwyllo grwpiau drwy'r amser. Bydd staff yr Amgueddfa'n bresennol.

Iard ac Ardd

Fframiau haen uchel yn cynnwys blodau, llyisiau a pherlyisiau. Rhaid cymerid gofal o'r fframiau pren a gwaith haearn sydd yn y gwagle yma. Mae'r llwybrau'n anwastad. Ceir hefyd cerbydau yn defnyddio'r ardal yma. Eich cyfrifoldeb chi yw gwneud yn siŵr fod grwpiau'n cael eu harolygi trwy gydol eu hamser yn yr ardal yma.

Adolygiad

Caiff y ddogfen hon a'r wybodaeth gysylltiedig am ddiogelwch eu diweddarau'n gyson.

Gorffennaf 2019

Am fwy o wybodaeth am ein yswriant dilynwch y ddolen yma –

<https://amgueddfa.cymru/atebolrwydd/yswiriant/>

Reviewed 2019

AMDDIFFYN PLANT AR SAFLEOEDD AMGUEDDFA CYMRU

Mae ein Polisi Amddiffyn Plant llawn ar y wefan o dan

www.amgueddfacymru.ac.uk/amdanomni/PolisiaStrategaeth

Darllenwch y dyfyniadau hyn yn ofalus cyn eich ymweliad.

Cyfrifoldebau Arweinwyr/Athrawon wrth ymweld â'r Amgueddfa

Mae Amgueddfa Cymru am sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag niwed yn yr Amgueddfa. Yn ogystal â dyletswyddau'r Amgueddfa, rydyn ni'n gofyn bod arweinwyr/athrawon grwpiau yn cyflawni eu cyfrifoldebau eu hunain.

Yn benodol, bydd yr holl arweinwyr/athrawon yn:

- Sicrhau eu bod nhw'n goruchwyllo'r plant/pobl ifanc drwy'r amser
- Cysylltu ag aelod o staff yn achos damwain er mwyn sicrhau bod Trefn Argyfwng Amgueddfa Cymru yn cael ei dilyn
- Cysylltu ag aelod o staff os oes plentyn ar goll er mwyn dilyn trefn yr Amgueddfa
- Sicrhau nad oes gan y bobl ifanc ddioddydd meddwol na chyffuriau anghyfreithlon ac nad ydyn nhw'n eu defnyddio nac yn smygu ar dir yr Amgueddfa
- Peidio â cham-drin unrhyw blentyn/person ifanc ar lafar nac yn gorfforol
- Sicrhau bod gennych yswiriant digonol ar gyfer y grŵp a'r arweinydd
- Dweud wrth y grŵp sut i ymddwyn yn Amgueddfa Cymru
- Dilyn Trefniadau Tân Amgueddfa Cymru

Fel arweinwyr/athrawon, chi sy'n bennaf gyfrifol am les y plant sydd yn eu gofal drwy'r amser.

Byddwn ni'n rhoi gwybod i'r arweinydd/athro cyfrifol am unrhyw bryderon (oni bai mai dyna'r person sy'n achosi pryder i ni) ac yn cyfeirio'r mater at yr ysgol/sefydliad wedyn. Caiff pryderon am ymddygiad yr arweinydd/athro eu cyfeirio'n syth at yr ysgol/sefydliad ac efallai at yr heddlu hefyd.

Ymddygiad grwpiau yn yr Amgueddfa

Mae'r Amgueddfa am i'w holl ymwelwyr fwynhau eu hamser gyda ni. Felly rydyn ni'n disgwyl i bob ymwelydd ymddwyn yn gwrtais, a dangos parch at eraill ac at eiddo'r Amgueddfa bob amser wrth ymweld â'r Amgueddfa.

Ni ddylai arweinwyr grwpiau adael i neb yn y grŵp:

- Ymddwyn mewn ffordd fygythiol, ymosodol neu dreisgar
- Bwlio (ar lafar neu'n gorfforol)
- Gwneud sylwadau rhywiol, hiliol neu sylwadau difriol eraill am unrhyw berson neu grŵp arall
- Difrodi eiddo neu arddangosfeydd yr Amgueddfa
- Gadael sbwriel ar dir yr Amgueddfa
- Bwydo, cyffwrdd, dychryn neu frifo'r anifeiliaid
- Mynd i rannau o'r Amgueddfa sydd wedi eu cau â chortyn
- Defnyddio iaith anwedus
- Smygu
- Yfed alcohol y tu hwnt i'r manau sydd wedi 'u clustnodi (h.y. y bwyty a'r manau picnic) neu ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon
- Bwyta ac yfed heblaw yn y caffis, y bwyty a'r llefydd eraill sydd wedi eu clustnodi i ysgolion fwyta
- Defnyddio ffôn poced yn yr orielau

Os na fyddwch chi'n cadw at y gofynion hyn, mae'r Amgueddfa'n cadw'r hawl i wrthod derbyn

grŵp a/neu i ofyn i'r grŵp adael yn safle.